**PWYLLGOR SAFONAU**
**DYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019

**YN BRESENNOL:** **Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIADAU:** Phillipa Earlam, a'r Swyddog Monitro

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Dirprwy Swyddog Monitro a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 45. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim

## 46. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2019.

Cywirdeb

Tudalen 5, cofnod 41, gofynnodd Julia Hughes i'r ail baragraff i gael ei ddiwygio i ddarllen ei bod wedi 'cyfeirio at archwiliad yn cynnwys aelod o Gyngor Tref Prestatyn'.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 47. GODDEFEBAU

Dim

## 48. ADBORTH O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad i roi adborth gan y Cynghorau Tref a Chymuned ar yr ymweliadau i'w cymryd gan yr Aelodau Annibynnol. Fe ddywedodd eu bod wedi derbyn naw o ymatebion wedi'u crynhoi yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Ar y cyfan roedd yr adborth yn gadarnhaol ac fe gafodd nifer o

awgrymiadau eu gwneud gan y Cynghorau, fel y manylir yn yr adroddiad, i wella prosesau ymhellach.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cynghorau Tref a Chymuned wedi adrodd eu bod wedi gweld y rhaglen o ymweliadau yn fuddiol ac wedi darparu newidiadau ar gyfer y gorau mewn rhai arferion. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y sylwadau wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn ac os oedden nhw'n dymuno mabwysiadu unrhyw awgrymiadau pellach neu ddiwygio prosesau presennol.

Dyma'r Cynghorydd Patrick Heesom yn llongyfarch y Prif Swyddog, Dirprwy Swyddog Monitro ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor ar lwyddiant y rhaglen gan ddweud ei fod wedi gweithio'n dda ac yn esiampl o arfer da i gael ei fabwysiadu gan awdurdodau eraill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at yr awgrym bod y Pwyllgor o bosib yn ystyried adolygu gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn cael cyflawnrwydd ac i ddarparu adborth os oedd gwybodaeth hanfodol ar goll. Fe ddangosodd ei gefnogaeth i'r angen am gyngor ac arweiniad i gael ei roi i Gynghorau Tref a Chymuned i sicrhau fod eu gwefannau yn cydymffurfio â'r gofynion statudol gan dynnu sylw at gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb fel enghraifft.

Pwysleisiodd Julia Hughes ar y pwysigrwydd fod gwybodaeth allweddol ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol ar holl wefannau Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd, lleoliad, rhaglen, cofnodion ac adroddiadau. Dywedodd hefyd ei bod yn cefnogi'r angen i ddarparu cyngor ac arweiniad i sicrhau fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio. Cyfeiriodd at yr argymhelliad yn yr adroddiad y dylid gwneud gwiriadau ar wefannau Cynghorau Tref a Chymuned gan argymell fod y gwaith paratoi ar gyfer hyn yn cael ei gynnwys fel eitem ar Raglen Waith i'r Dyfodol a bod rhestr o'r gofynion yn cael eu darparu i helpu Aelodau Annibynnol i gyflawni'r gwiriadau.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Johnson y byddai'n ddefnyddiol pe bai Cynghorau Tref a Chymuned yn darparu data ar y defnydd a wneir o'u gwefannau.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom fod angen i fanylion cyswllt Clercod Cynghorau Tref a Chymuned fod ar y gwefannau ond heb gynnwys eu cyfeiriad cartref.

Cyfeiriodd Ken Molyneux at yr adborth o Gyngor Cymuned Nannerch a oedd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi tynnu sylw at y sylwadau ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau, cyfleoedd am adborth a'r 'hawl i ymateb'. Roedd y pwyntiau a godwyd wedi'u cydnabod ac fe ddywedodd y Pwyllgor yn ogystal â'r adborth ysgrifenedig a ddarparwyd i Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn y cyfarfodydd bod yna hefyd gyfle i glywed adborth ar lafar yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a oedd yn gyfarfodydd cyhoeddus ac i ofyn cwestiynau neu fynegi pryderon yn y cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Safonau ac wrth gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned. I ddarparu'r gefnogaeth orau i Gynghorau Tref a Chymuned teimlwyd na fyddai'n briodol i ddarparu adborth uniongyrchol ar lafar yn y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'u heilio gan Jonathan Duggan-Keen. Cytunwyd bod y gair 'archwiliadau' yn yr ail argymhelliad yn cael ei newid i 'ymweliadau'.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn trefnu rota o wiriadau ar wefannau Cynghorau Tref a Chymuned;

Bod y broses ar gyfer ymweliadau'r dyfodol yn cynnwys cyfle i Gynghorau ymateb i'r adborth; ac

I ddangos gwerthfawrogiad i'r Cynghorau Tref a Chymuned am eu hadborth a'u hymrwymiad i'r broses

## 49. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Ystyriwyd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol presennol. Meddai Julia Hughes bod eitem i ddarparu adborth ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd gydag Arweinydd a Chadeirydd y Cyngor a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys ar y Rhaglen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at y swydd wag presennol am Aelod Annibynnol a'r bwriad o gynnal cyfweliadau ddiwedd y flwyddyn. Fe awgrymodd y dylai diweddariad gael ei gynnwys fel eitem ar y Rhaglen yn y Flwyddyn Newydd.

Mewn ymateb i ymholiad gan Julia Hughes fe gadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro yn dilyn cyhoeddi'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad nesaf gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Awgrymodd Julia Hughes fod adborth ar y gwiriadau i wefannau Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnwys ar y Rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

## 50. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.00am a daeth i ben am 6.35pm)

.................................................
**Cadeirydd**